Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Y Gwir Anrhydeddus
**Edward Argar AS**
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol
Carchar EF Abertawe
200 Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA13SR

...,
**2J** Ionawr 2024

:) -

**CARCHAR EI FAWRHYDI ABERTAWE: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MEHEFIN 2021 – 31 HYDREF 2022**

Diolch i chi am ddarparu adroddiad blynyddol eich Bwrdd ar Garchar EF Abertawe. Rwyf wedi darllen eich adroddiad yn ofalus ac rwy'n cymeradwyo'r Bwrdd am gyflawni ei rôl statudol yn effeithiol, yn enwedig gan eich bod wedi parhau i weithredu gyda nifer o swyddi gwag. Roeddwn i'n drist iawn pan glywais y cafwyd dwy farwolaeth yn y ddalfa neu'n fuan ar ôl rhyddhau yn ystod y flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad. Hoffwn sicrhau'r Bwrdd fy mod yn cymryd argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf o ddifrif.

Rwy'n gwerthfawrogi pryderon y Bwrdd ynghylch lefel gefnogaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer mewnfudwyr sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Mae gan Garchar EF Abertawe dîm symudol sy'n ymweld â'r sefydliad bob pythefnos i gynnal sesiynau cynefino a thasgau ac i gynnal cymhorthfa agored os oes angen. Gellir gofyn am apwyntiadau gyda Swyddog Mewnfudo hefyd drwy Uned Rheoli Troseddwyr y carchar. Yn ddiweddar, fe wnaeth Tîm Carchardai Mewnfudo'r Swyddfa Gartref recriwtio dau Swyddog Mewnfudo i weithio yn eu tîm yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn eu galluogi i ymweld â Charchar EF Abertawe a Charchar EF Caerdydd yn fwy rheolaidd. Mae gan Garchar EF Abertawe hefyd Un Pwynt Cyswllt penodol i helpu Troseddwyr o Dramor. Maent yn egluro'r broses, yn helpu i gwblhau dogfennau, yn cyflwyno gwaith papur, ac yn cysylltu â chyfreithwyr, rheolwyr troseddwyr cymunedol a'r Swyddfa Gartref.

Pan wneir penderfyniad i gadw Troseddwr o Dramor ar ôl cwblhau ei ddedfryd o garchar, bydd y Swyddfa Gartref yn cynnal asesiad risg gofalus o'i addasrwydd i drosglwyddo i'r ystâd symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr. Disgwylir fel arfer y bydd y lleoedd mewn carchardai y mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn eu neilltuo ar gyfer y Swyddfa Gartref yn cael eu defnyddio i ddal Troseddwyr o Dramor yr asesir eu bod yn anaddas i'w cadw yn yr ystâd symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr. Bydd penderfyniadau i roi unigolion penodol yn y carchar, boed nhw'n droseddwyr o dramor sydd wedi treulio'u dedfryd neu fel arall, yn seiliedig ar bresenoldeb un neu fwy o'r ffactorau risg neu'r meini prawf fel y nodir ym mhennod 55 o Gyfarwyddiadau a Chanllawiau Gorfodi'r Swyddfa Gartref. Bydd unigolion yr ystyrir eu bod yn addas i'w trosglwyddo yn cael eu rhoi ar restr aros ond byddant yn aros yn y carchar tra'n aros am y trosglwyddiad hwnnw. Maen nhw'n cael eu trosglwyddo cyn gynted â phosibl ar ôl i'r broses asesu risg ddod i ben. Mae data lleol yn dangos bod y broses drosglwyddo nawr yn gyflymach a bod y rhan fwyaf o Droseddwyr o Dramor yn cael eu trosglwyddo o fewn ychydig ddyddiau i'w dyddiad rhyddhau amodol. Mae unrhyw oedi'n cael ei uwch-gyfeirio gan yr Un Pwynt Cyswllt ar gyfer Troseddwyr o Dramor.

Rwy'n cydnabod bod heriau'n parhau o ran sicrhau bod carcharorion yn gadael y ddalfa gyda llety diogel a sefydlog, gan fod hyn yn allweddol i leihau aildroseddu, lleihau troseddau, a diogelu'r cyhoedd. Bydd y Bwrdd yn ymwybodol bod ein gwasanaeth pontio 12 wythnos, a elwir yn Haen 3 y Gwasanaeth Llety Cymunedol (CAS3), wedi cael ei ehangu i Gymru ym mis Mehefin 2022 ac mae'n bleser gennyf ddweud y ceir yn awr 149

o welyau y cytunwyd ar grant ar eu cyfer yng Nghymru. Fe’i cyflwynwyd i weddill rhanbarthau prawf Lloegr y llynedd. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd CAS3 wedi lletya 5,796 o bobl a adawodd y carchar, a bydd y gwasanaeth yn cefnogi miloedd yn fwy wrth i’r gwaith o gyflwyno’r gwasanaeth barhau. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF hefyd yn ehangu Haen 2 CAS, sy’n darparu llety addas sy’n benodol i’r rhywiau ar gyfer carcharorion ar fechnïaeth a charcharorion sy’n gymwys i gael Cyrffyw Cyfyngu i’r Cartref (HDC), i’r rheini a allai gael eu remandio neu beidio â chael eu rhyddhau gan nad oes ganddynt lety addas.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru yn gweithio’n agos â Llywodraeth Cymru ac wedi ymrwymo i gefnogi ei chynllun gweithredu i roi diwedd ar ddigartrefedd, gan gynnwys canfod angen unigolion sy’n gadael yr ystâd sefydliadau diogel am dŷ ac ymyrryd.  Maent hefyd yn datblygu meysydd i wella ymyriadau cynnar a mesurau atal wedi’u targedu, gan hwyluso llwybrau ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae Ymarferwyr Prawf yn cyfeirio unigolion sy’n gadael Carchar EF Abertawe at y gwasanaeth CAS3 i’w helpu i gael llety ar ôl cael eu rhyddhau.

Mae’r ddarpariaeth iechyd meddwl yn gwella’n barhaus yng Ngharchar EF Abertawe, ac er mis Hydref 2023 mae’r tîm Mewngymorth wedi bod yn gweithio’n barhaol yn y carchar gan ganiatáu i wasanaethau gofal iechyd a Mewngymorth gydweithio a helpu i leihau unrhyw amseroedd aros a chynyddu effeithiolrwydd rhwng y timau. Mae'r tîm Mewngymorth mewn sefyllfa well i wneud adolygiad o’r rhai sydd ag anghenion gofal eilaidd ac ymyrryd, a cheir bellach gyfarfod pwynt mynediad wythnosol lle caiff atgyfeiriadau ac ymyriadau eu trafod. Mae’r darparwr gofal iechyd wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu sgiliau nyrsys iechyd meddwl ym mhob tîm fel bod y rheini sydd yn ein gofal yn gallu cael amrywiol ymyriadau. Hoffwn sicrhau’r Bwrdd bod y gwaith o wella’r ddarpariaeth iechyd meddwl yng Ngharchar EF Abertawe yn cael ei adolygu’n gyson i sicrhau bod pob agwedd ar ofynion iechyd meddwl yn cael ei bodloni.

Er bod y Bwrdd wedi ailadrodd ei bryderon o gyfnodau adrodd blaenorol, roedd yn galonogol nodi bod Carchar EF Abertawe yn dal i fod yn garchar diogel a bod cyfarfodydd cynrychiolwyr carcharorion gyda’r Llywodraethwr a swyddogion eraill yn cyfrannu at berthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Tawelwyd fy meddwl hefyd pan glywais fod cynnydd nodedig wedi’i wneud i ddatblygu gweithdai a gweithgareddau i baratoi’r carcharorion ar gyfer eu rhyddhau. Hoffwn ganmol llyfrgell y carchar am gael ei henwi fel enghraifft o’r arfer gorau o ran cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn fewnol ac yn allanol ac am nodi 75 mlynedd o weithredu yn 2023.

Rwy'n sylwi eich bod wedi codi rhai materion lleol sy’n peri pryder yn eich adroddiad ac y bydd y Llywodraethwr yn parhau i roi gwybod i chi amdanynt wrth i’r gwaith fynd rhagddo. Mae sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF mewn ymateb i faterion eraill a godwyd yn eich adroddiad wedi’u nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Rwy’n gwerthfawrogi’r cyfraniad gwerthfawr gan aelodau’r Byrddau Monitro Annibynnol ac rwy’n ddiolchgar am y gwaith a wnewch.

I J.-,.

Av-

**Y GWIR ANRHYDEDDUS EDWA-R-D-ARGAR AS**

**Atodiad**

## CARCHAR EI FAWRHYDI ABERTAWE: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MEHEFIN 2021 – 31 HYDREF 2022

### Sylwadau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ar faterion a godwyd yn yr adroddiad

### Rheoli Poblogaethau Carchardai

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn ymdrechu i gynnal llif y troseddwyr er gwaethaf y pwysau o ran y boblogaeth sydd wedi effeithio'n ddiweddar ar yr ystâd carchardai dynion gyfan. Mae'r boblogaeth remand wedi tyfu i lefelau nas gwelwyd o'r blaen oherwydd ôl-groniad yn y llysoedd a'r gweithredu diwydiannol gan Gymdeithas y Bar Troseddol ac mae'r effaith yn cael ei theimlo mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Mae'r boblogaeth a gafwyd yn euog ond nas dedfrydwyd hefyd wedi cael effaith uniongyrchol ar leoedd mewn carchardai derbyn.

Mae Carchar EF Abertawe yn derbyn carcharorion o'r llysoedd y mae'n eu gwasanaethu, ac fel adnodd cenedlaethol i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF bydd y sefydliad yn derbyn carcharorion o garchardai eraill yng Nghymru a Lloegr. Fel y soniwyd yn yr ymateb ym mis Hydref 2022, mae ailgyfeiriadau llys a throsglwyddo rhwng carchardai yn aml yn angenrheidiol i reoli poblogaeth y carchar, ac mae hyn yn golygu y bydd Carchar EF Abertawe yn derbyn carcharorion o Garchar EF Caerdydd. Mae ailgyfeiriadau llys yn atal sefyllfaoedd drud a diangen o gloi carcharorion allan, sy'n golygu bod carcharorion yn cael eu rhoi yng nghelloedd gorsafoedd heddlu. Bydd pob achos o ailgyfeirio'n cael ei glirio gyda Swyddfa Ranbarthol Cymru cyn gofyn i'r contractwr hebrwng eu gweithredu. Mae gan Garchar EF Abertawe nifer fach iawn o garcharorion sydd â chyfeiriad adsefydlu y tu allan i Gymru ac nid oes tystiolaeth bod nifer fawr o garcharorion 'y tu allan i'r ardal' yn cael eu hailgyfeirio i'r carchar. Ein blaenoriaeth yw cynyddu'r capasiti mewn carchardai derbyn i wasanaethu'r llysoedd, annog carchardai i gefnogi llif troseddwyr, a sicrhau bod anghenion adsefydlu pob carcharor yn cael eu diwallu a'u diogelu.